OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 1281

## Rheoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

## RHAN 7

### Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â goruchwylio rheolaeth a defnydd cyffuriau a reolir a datgelu cofnodion addysgol a diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu data

**Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008**

**7.**—(1) Mae Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) hepgorer y diffiniad o "y GDPR";

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

"mae i "GDPR y DU" yr un ystyr ag a roddir i "the UK GDPR" yn Rhannau 5 i 7 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (gweler adran 3(10) a (14) o'r Ddeddf honno);".

(3) Yn rheoliad 25(7) (dyletswydd i gydweithredu drwy ddatgelu gwybodaeth ynglyn â phersonau perthnasol), yn lle "neu'r GDPR" rhodder "neu GDPR y DU".

(4) Yn rheoliad 26(6) (cyrff cyfrifol yn gofyn am wybodaeth ychwanegol i gael ei datgelu am bersonau perthnasol), yn lle "neu'r GDPR" rhodder "neu GDPR y DU".

(5) Yn rheoliad 29(3) (adroddiadau ar ddigwyddiadau), yn lle "neu'r GDPR" rhodder "neu GDPR y DU".

**Rheoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011**

**8.**—(1) Mae rheoliad 5 o Reoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (5)(a) a (b), yn lle "y GDPR" rhodder "GDPR y DU".

(3) Yn lle paragraff (6) rhodder—

"(6) Yn y rheoliad hwn, mae i "GDPR y DU" yr un ystyr ag a roddir i "the UK GDPR" yn Rhannau 5 i 7 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (gweler adran 3(10) a (14) o'r Ddeddf honno)."

(**1**) O.S. 2008/3239 (Cy. 286), a ddiwygiwyd gan adran 211(1)(b) o Ddeddf Diogelu Data 2018 (p. 12) a pharagraff 334 o Atodlen 19 iddi. Mae diwygiadau perthnasol wedi eu gwneud gan O.S. 2019/419 ond ni ddaw'r rhain i rym tan y diwrnod ymadael. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) O.S. 2011/1942 (Cy. 209), a ddiwygiwyd gan adran 211(1)(b) o Ddeddf Diogelu Data 2018 a pharagraffau 365(1), 365(2)(a) a 365(3)(a) o Atodlen 19 iddi. Mae diwygiadau perthnasol wedi eu gwneud gan O.S. 2019/419 ond ni ddaw'r rhain i rym tan y diwrnod ymadael. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

### Rheoliadau Diogelu Data, Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (Diwygiadau etc) (Ymadael â'r UE) 2019

**9.** Yn Atodlen 3 i Reoliadau Diogelu Data, Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (Diwygiadau etc) (Ymadael â'r UE) 2019(**3**), hepgorer paragraffau 71 i 75 a pharagraffau 90 ac 91.

(**3**) O.S. 2019/419, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.